# Blaenraglen Waith Y Pwyllgor Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol

## Rhan 1 : Blaenraglen Waith Strategol
## Mai 2006 - Ebrill 2007

1. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn gorchymyn bod y pwyllgorau pwnc yn cynnal rhaglen waith dreigl dros gyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn nodi blaenoriaethau'r Pwyllgor am y deunaw mis nesaf. Mae hi'n cael ei hategu gan raglenni manwl sy'n ymdrin â rhyw dri mis ar y tro.

**Portffolio'r Pwyllgor**

2. Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio Gweinidog y Cynulliad.

- Pob agwedd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, gan gynnwys ymarfer meddygol a gofal sylfaenol, ***ac eithrio*** (*i) goruchwylio'r proffesiynau meddygol; (ii) polisi ar eni plant ar ran pobl eraill, senotrawsblannu*, embryoleg a geneteg dynol; a (iii) trwyddedu meddyginiaethau (Nid yw'r materion hyn wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol).*
- Taliadau am wasanaethau'r GIG, gan gynnwys taliadau presgripsiwn, deintyddol, offthalmig ac optegol.
- Darparu gwasanaethau yng Nghymru i bobl ag afiechyd meddwl.
- Pob agwedd ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys diogelwch bwyd.
- Rheoleiddio gwenwynau.
- Gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru.
- Bwyd sydd wedi'i addasu'n enetig (***ac eithrio*** *tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig - mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yw hwn).*
- Goruchwylio gweithgareddau'r Comisiwn Archwilio mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
- Y polisi ar ofal yn y gymuned.
- Y polisi ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant, gan gynnwys rheoleiddio cylchoedd chwarae, canolfannau gweithgareddau a gwarchod plant.

- Goruchwylio gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol.
- Goruchwylio

  Cyngor Gofal Cymru;

  Canolfan Iechyd Cymru;

  Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;

  Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
- Rheoleiddio cartrefi gofal preifat a chartrefi nyrsio preifat yng Nghymru.
- Arolygu'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a llunio adroddiadau am yr arolygiadau hynny (drwy Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).
- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu yng Nghymru (***ac eithrio*** *achosion lle mae trigolion y DU yn mabwysiadu plant dramor).*
- Cyfrifoldeb trawsbynciol am wella iechyd, a phobl hy^n a gofalwyr.

3. Pennir **Cyfrifoldebau'r Pwyllgor** yn y Rheolau Sefydlog :

“9.7. Rhaid i bob pwyllgor pwnc

i. cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. cadw llygad ar y gwariant a'r gweinyddu sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, rhaid i bob pwyllgor pwnc hefyd,

i) cynghori ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 24;

ii) rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 21;

iii) cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 23 (cwynion);

iv) cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22; a

v ) ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

**Nodau ac Amcanion y Pwyllgor**

4. Nod y Pwyllgor yw craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro sut y maent yn cael eu gweithredu, a hynny er mwyn sicrhau bod gwasanaethau i wella'u hiechyd ar gael i bobl Cymru a bod gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu, lle y bo angen.

5. Wrth adolygu a datblygu polisïau, bydd y Pwyllgor yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at wasanaethau cost effeithiol o ansawdd uchel sy'n cael eu rheoleiddio a'u harolygu'n briodol.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

6. Ar gyfer cyfnod y flaenraglen waith, bydd ffocws strategol y Pwyllgor ar y materion canlynol a fydd, ynghyd â'i gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 9.7 a 9.8, yn flaenoriaethau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor, sef :

- Cynnal adolygiad o wasanaethau canser ar gyfer pobl Cymru;
- Monitro'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y ddogfen strategol "Cynllun Oes", a gyhoeddwyd yn 2005 gyda golwg arbennig ar
  - Lleihau amseroedd aros mewn ysbytai
  - Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyllid a mynediad at wasanaethau;
- Mesurau ataliol a gwasanaethau ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl, ac yn enwedig plant a'r glasoed;
- Gofal Cymdeithasol - Safonau ac Ansawdd:
  - Amddiffyn Plant a'r
  - Arolygiaeth Safonau Gofal;
- Deddfwriaeth
  - Y ddeddfwriaeth sylfaenol a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Cynulliad;
- Is-ddeddfwriaeth a glustnodwyd gan y Pwyllgor ar gyfer craffu arni. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno craffu ar gryn dipyn o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Mesur Iechyd, oedd yn dal i fod gerbron Senedd y DU ddechrau mis Mai 2006. *(Atodir y ddeddfwriaeth gyfredol fel ag yr oedd ar 30 Ebrill 2006).*
- Craffu ar waith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

**Blaenoriaethau cyllidol**

7.Bydd y Pwyllgor yn monitro'r camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad yn y meysydd canlynol a glustnodwyd yn flaenoriaethau gan y Pwyllgor ar gyfer cyllideb 06-07:

i. ysbytai plant
ii. gweithredu Townsend

iii. gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru (gan gynnwys yr Ambiwlans Awyr)
iv. gwasanaethau canser
v. gwasanaethau ar gyfer diabetes
vi. gwasanaethau epilepsi
vii. gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl.

**Y Cynlluniau Statudol**

8. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ymwneud â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, ynghyd â'r cynllun datblygu cynaliadwy.

**Cydraddoldeb**

9. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 1998 o ran sicrhau bod y Cynulliad yn rhoi sylw dyledus i egwyddor cyfle cyfartal a bydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

10. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiad am gyfarfodydd Gweinidog y Cynulliad â'r sector gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 Cynllun y Sector Gwirfoddol.

*Senotrawsblannu yw'r enw a roddir ar y broses o drawsblannu meinwe ac organau o'r naill rywogaeth i'r llall, ac yn enwedig ar drawsblannu meinwe o gyrff anifeiliaid i gyrff pobl.